

COD MAWNDIROEDD


Cod Mawndiroedd: Canllawiau i brynwyr

Beth yw'r Cod Mawndiroedd?

Mae'r Cod Mawndiroedd yn safon ardystio ar gyfer prosiectau yn y DU sydd am werthu'r manteision carbon a fydd yn deillio o adfer mawndiroedd.

Mae'n nodi cyfres o ofynion arfer gorau sy'n rhoi sicrwydd i brynwyr y bydd eu pryniant yn arwain at fudd amgylcheddol sy'n barhaol, ychwanegol ac yn wiriadwy.

Gan gydnabod bod buddion carbon yn codi am sawl blwyddyn ar ôl i'r gweithgareddau adfer cychwynnol gael eu gweithredu, mae'r Cod Mawndiroedd yn sicrhau fod y buddion carbon yn cael eu mesur a'u monitro'n rheolaidd dros oes y prosiect. Felly, gall prynwyr deimlo'n hyderus wrth brynu unedau carbon mawn ymlaen llaw, gan alluogi i'r prosiect adfer ddigwydd.



Pam prynu unedau carbon Cod Mawndiroedd?

Mae mawndiroedd sydd mewn cyflwr iach o fudd i bawb. Mae mawndiroedd yn rhan allweddol o'n cyfalaf naturiol sy'n werth £biliynau o ran y gwasanaethau y gallant eu darparu.

Mae mawndiroedd iach yn:

- gweithredu fel sinc carbon, gan gyfrannu at ymdrechion newid yn yr hinsawdd
- gwella ansawdd dŵr yfed
- arafu llif dŵr wyneb, gan helpu i atal llifogydd
- darparu cynefin ar gyfer bioamrywiaeth unigryw.

I roi maint eu pwysigrwydd mewn persbectif, mae mawndiroedd yn gorchuddio tua 12% o'r DU, gyda mawn dwfn yn storio ugain gwaith cymaint o garbon a storir yn holl biomas coedwigol y DU gyfan.

Yn anffodus, mae dros 80% o fawndiroedd y DU mewn cyflwr diraddiedig, gan leihau'r gwasanaethau y gallant eu darparu a restrwyd uchod ynghyd a'u gwerth cyfalaf naturiol yn ddramatig.


Os na weithredir nawr i sefydlogi ac adfer y

mawndiroedd sy'n dal i fodoli, bydd eu cyflwr yn parhau i ddirywio, gan achosi cost amgylcheddol enfawr i genedlaethau'r dyfodol. Bydd prynu unedau carbon y Cod Mawndiroedd yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gynyddu nifer y prosiectau adfer sy'n digwydd yn y DU a'r buddion cysylltiedig.

Sut mae adfer mawndir yn arwain at fuddion carbon?

Mae mawndir wedi'i ddifrodi yn allyrru carbon a nwyon tŷ gwydr eraill i'r atmosffer sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Drwy atal difrod pellach a gwella cyflwr mawndir trwy weithgareddau adfer gellir gwneud arbedion sylweddol o ran allyriadau.


Bydd maint y budd carbon yn dibynnu ar faint y difrod cyn iddo gael ei adfer, maint y prosiect a hyd y cytundeb rheoli. Mae pob prosiect yn unigryw a gellir dod o hyd i un a fydd yn cwrdd ag anghenion pob prynwr unigol.



Beth yw'r manteision o brynu unedau Cod Mawndiroedd?

Mae prynu unedau carbon Cod Mawndiroedd yn gwneud synnwyr amlwg o safbwynt amgylcheddol ac economaidd. Bydd gweithredu nawr i fuddsoddi mewn mawndiroedd yn osgoi llawer mwy o gost i fusnesau a'r gymdeithas ehangach yn y dyfodol, gyda'r Cod Mawndiroedd yn darparu mecanwaith cadarn ar gyfer y rhai sy'n dymuno gwneud hynny.

Mae pob prosiect Cod Mawndiroedd yn unigryw, ac fe ymgwymerir â gwaith adfer am amrywiaeth eang o resymau a chydag amcanion penodol. Felly, gellir dod o hyd i brosiect lle gellir cynhyrchu'r manteision mwyaf pwysig i fuddsoddwr penodol.



Ble gellir prynu unedau carbon Cod Mawndiroedd?

Mae ystod eang o brosiectau mawndirol ar draws y DU ar gael i'w hariannu sy'n ddefnyddio dulliau wedi'u profi i gyflawni adferiad.

Mae prosiectau cofrestredig ar gael yn gyhoeddus i chwilio amdanynt [ar-lein](#) neu fel arall gall prynwyr ddefnyddio gwasanaethau brocer carbon arbenigol i chwilio am brosiect addas ar eu rhan.

Gall prosiectau werthu'r budd carbon ar unrhyw adeg dros gyfnod y prosiect, gyda'r mwyafrif yn gwerthu'r cyfanswm ymlaen llaw unwaith y bydd eu cynllun adfer mawr wedi cael ei ddilysu o dan y Cod Mawndiroedd. I ddarganfod mwy a thrafod sut y gallwch gefnogi un o brosiectau'r Cod Mawndiroedd, cysylltwch â thîm yr IUCN UK Peatland Programme, neu ewch i'n [gwefan](#).

Cysylltwch â ni

**PEATLAND
CODE**

E: info@iucn.org.uk

T: 07341 733242

W: www.iucn-uk-peatlandprogramme.org/peatland-code

Mae'r 'International Union for the Conservation of Nature (IUCN) UK Peatland Programme' yn bodoli i hyrwyddo adferiad mawndiroedd yn y DU ac yn hyrwyddo manteision lluosog mawndiroedd trwy bartneriaethau, gwyddoniaeth gref, polisi cadarn ac arfer effeithiol.

Supported by:

